| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 19 Mehefin 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Cynllun Sector Gwirfoddol** |

## Diben

1. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi cynnwys ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Cynllun Sector Gwirfoddol.

## Crynodeb

2. Mae ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi trosolwg o'r cynnydd mewn perthynas â gweithredu'r Cynllun Sector Gwirfoddol yn ystod y flwyddyn ariannol 2001/2002. Mae'n rhoi manylion am sut y mae'r Cynulliad a'i bartneriaid yn datblygu gofynion y Cynllun mewn meysydd polisi perthnasol. Mae'r adroddiad hefyd yn asesu'r cynnydd yn erbyn Cynllun Gweithredu'r Cynllun Sector Gwirfoddol.

## Amseru

3. Trefnwyd dadl ar yr adroddiad ar gyfer y Cyfarfod Llawn ar 11 Gorffennaf. Unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gymeradwyo, a'i ddiwygio yn ôl yr angen, bydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Bydd copi printiedig hefyd yn cael ei gynhyrchu a'i ddosbarthu'n eang.

## Cefndir

4. Roedd yr Adroddiad Blynyddol Cyntaf ar y Cynllun yn sôn am sut y mae'n cael ei weithredu, y datblygiadau allweddol sy'n deillio o hynny, a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gweithredu yn ystod y flwyddyn gyntaf honno. Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at osod y sylfeini ac yn addo darparu manylion llawnach ynghylch sut y bydd y Cynllun yn cael ei weithredu ar draws holl feysydd polisi'r Cynulliad. Mae'r Ail Adroddiad Blynyddol yn bwriadu cyflwyno hyn.

5. Mae copi o'r adroddiad yn Atodiad 1.

**Themâu trawsbynciol**

6. Y sector Gwirfoddol yw un o'r tair prif elfen sydd wrth wraidd polisi'r Cynulliad.

**Argymhelliad**

7. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys a fformat Ail Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Cynllun Sector Gwirfoddol.

**Jane Hutt**
**Y Gweinidog dros Iechyd Gwasanaethau Cymdeithasol**